OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 3273 (Cy.311)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Caerdydd a Bro Morgannwg (Llanfihangel-ynys-Afan a Grangetown) 2002

Wedi'i wneud - - 6 Rhagfyr 2002

Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)

Mae Comisiwn Ffiniau Llwyodraeth Leol i Gymru wedi cyflwyno adroddiad dyddiedig Ionawr 2002 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adrannau 54(1), 58(1) a 73 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) ar ei adolygiad ar y ffin rhwng Dinas a Sir Caerdydd a Cyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg yn ardal Ffordd Ddolen Grangetown ynghyd â'r cynigion y mae wedi eu llunio amdani;

a chan bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hyn gydag addasiadau;

a bod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu gwneud;

yn awr mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Caerdydd a Bro Morganwg (Llanfihangel-ynys-Afan a Grangetown) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2003, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau, ond at ddibenion pob achos sy'n arwain at etholiad neu'n ymwneud ag etholiad sydd i'w gynnal ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei wneud.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

Ystyr "Bro Morgannwg" ("*Vale of Glamorgan*") yw Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg;

ystyr "Caerdydd" ("*Cardiff*") yw Dinas a Sir Caerdydd;

(**1**) 1972 (p.70)

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.199/672).